SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU



# Cyflwyniad i Ddatganid Cyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp

# 2020/21

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES





# Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Mae'r flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi bod yn her i bawb. Cafodd etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd oedd fod i gael eu cynnal ym mis Mai 2020 eu gohirio tan fis Mai 2021, oherwydd pandemig Covid19. Cadarnhaodd Cynllun Ymateb i Covid y Comisiynydd y byddai'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun yr Heddlu a Throsedd 2020/21 yn parhau yn eu lle. Y blaenoriaethau yw:

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Trefnedig
- Cam-drin Rhywiol
- Cyflawni Cymdogaethau Diogelach

At hynny, nododd y Comisiynydd bum pwynt ffocws pellach er mwyn delio â'r sefyllfa frys. Y rhain oedd:

- Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl adnoddau digonol i ymateb i'r argyfwng
- Sicrhau, ar ran ein cymunedau bod yr heddlu yn ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, digonol, cymesur ac yn foesol
- Hwyluso partneriaeth effeithiol ymhlith asiantaethau a grwpiau yn gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
- Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr trosedd a chynnig grantiau ar gyfer dibenion plismona a lleihau niwed
- Sicrhau bod iechyd tymor hir Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei ddiogelu drwy fonitro cynllun adferiad a gweithgarwch y sefydliad y tu hwnt i argyfwng Covid-19.

Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2020/21 ar 31 Ionawr 2020, cyn i effaith lawn Covid-19 fod yn hysbys. Newidiodd y cyfnodau cyfyngiadau symud y ffordd y mae staff a swyddogion yn cyflawni eu gwaith, a natur troseddu. Ar 23 Mawrth 2020, cynghorwyd y rhai a oedd yn gallu gwneud hynny i weithio gartref. Roedd ymateb buan yr adran TGCh yn galluogi hyn i ddigwydd ar unwaith a, hyd yn oed ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae tua 800 o unigolion yn parhau i weithio'n bennaf o gartref. Er bod nifer trosedd yn gyffredinol wedi gostwng tua 10%, cynyddodd adroddiadau cam-drin domestig pan gafodd y cyfyngiadau symud cyntaf eu llacio ym mis Mehefin 2020, sy'n cefnogi'r farn bod riportio wedi'i atal yn ystod y cyfyngiadau symud.

Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn arbennig o brysur yn ystod 2020/21, gan ymdrin â £5.200m o wasanaethau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn, cynnydd o £2.164m o gymharu â gweithgarwch arferol. Yn ogystal â'r gweithgareddau arferol, sy'n cynnwys:

Checkpoint Cymru, Grantiau Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Dioddefwyr, Dechrau Newydd a VAWDASV, gweinyddodd y Tîm Comisiynu grantiau argyfwng Covid-19 o £1.097m a Chyllid Strydoedd Diogelach o £1.067m yn dilyn dau gais llwyddiannus am gyllid.

Yr wyf yn falch o weld, er gwaethaf yr amodau heriol, fod cyllidebau'n parhau i gael eu rheoli'n dda. Er bod rhai costau sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn cael eu had-dalu drwy grantiau ychwanegol gan y llywodraeth, nid oedd yr holl gostau'n adenilladwy. Fodd bynnag, unwaith eto nodwyd arbedion yn ystod y flwyddyn, cyflawniad i ymfalchïo ynddo o ystyried yr arbedion sylweddol a gyflawnwyd eisoes dros y 10 mlynedd diwethaf. Defnyddiwyd yr arbedion hyn i wrthbwyso'r gwariant ychwanegol, sy'n golygu y gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd a'r Prif Gwnstabl symud ymlaen yn hyderus, gan wybod bod y sefydliadau y maent yn eu harwain mor gadarn ag y gallant fod mewn cyfnod o ansicrwydd o'r fath.

**Stephen Hughes**
Prif Weithredwr



# Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21 (CIPFA/LASAAC) yn rhoi arweiniad i ni ar sut y dylem baratoi ein cyfrifon i gydymffurfio â Safonau Riportio Ariannol Rhyngwladol, a hefyd yn unol â deddfwriaeth, sy'n gofyn i ni ddangos mantolen cronfeydd y trethdalwyr (arian wrth gefn a ellir eu defnyddio) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tra bod rhaid i ni gydymffurfio gyda'r gofynion hyn wrth baratoi ein Datganiad Cyfrifon ar gyfer y pwrpas o osod treth y cyngor a monitro ein hincwm a'n gwariant, gallwn fesur ein perfformiad ariannol yn y flwyddyn drwy gymharu ein cyllideb gydag ein halldro (incwm gwirioneddol a gwariant yn y flwyddyn) a'r effaith ar y gronfa wrth gefn ddefnyddiadwy.

Oherwydd pandemig Covid-19, a'r newidiadau a ddeilliodd o hynny i'r galw ac arferion gwaith, roedd patrymau gwirioneddol incwm a gwariant yn amrywio'n sylweddol o'r cyllidebau. Fodd bynnag, oherwydd grantiau'r llywodraeth a dderbyniwyd i ad-dalu rhywfaint o'r gwariant sy'n gysylltiedig â Covid, ynghyd ag arbedion a nodwyd yn ystod y flwyddyn, lleihawyd yr effaith ariannol gyffredinol, gyda throsglwyddiad i gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio o £5.714m ar ddiwedd y flwyddyn.

Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw derbynnydd cychwynnol pob incwm, p'un ai os yw'r arian yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Heddlu. Am y rheswm hwn, er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Llywodraeth Leol, o fewn y cyfrifon fe welwch symiau uwch o lawer yng nghyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd na'r disgwyl yn seiliedig ar y gwariant a reolir gan y swyddfa hon. Hefyd, mae yna eitemau y mae'n rhaid iddynt ymddangos ar daflen mantolen y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan nad oes hawl gan y Prif Gwnstabl fod yn berchen arnynt fel tir ac adeiladau, arian yn weddill neu ddiffygion ar y cronfeydd pensiwn. Mae'r golofn grŵp ar bob un o'r datganiadau statudol yn dangos y safle cyffredinol ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau rhwng y ddau gorff.

**Kate Jackson**
Prif Swyddog Cyllid

# AR DDIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL TROSGLWYDDODD Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD £5.714M I'R CRONFEYDD WRTH GEFN:

| Gwariant Refeniw | Cyllideb Ddiwygiedig 2020/2021 | Alldro (Gwirioneddol) 2020/21 | Amrywiant Gorwario/ Tanwario |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Costau Gweithwyr | 144.035 | 143.437 | (0.598) |
| Costau nad yw'n gysylltiedig â staff | 35.996 | 34.159 | (1.837) |
| Arian cyfalaf o'r gyllideb refeniw | 4.688 | 4.799 | 0.111 |
| Argyfyngau | 0.250 | - | (0.250) |
| Partneriaethau | 6.514 | 6.506 | (0.008) |
| Incwm | (28.679) | (30.910) | (2.231) |
| **Gwariant gweithredu net** | **162.804** | **157.991** | **(4.813)** |
| Trosglwyddiadau i/(o'r) gronfeydd wrth gefn a lustnodwyd | 0.901 | 5.486 | 4.585 |
| Trosglwyddiad i/(o'r) gronfa wrth gefn gyffredinol | - | 0.228 | 0.228 |
| **Cyfanswm trosglwyddiadau i/(o'r) cronfeydd wrth gefn** | **0.901** | **5.714** | **4.813** |
| **Gwariant cyffredinol net** | **163.705** | **163.705** | **-** |

Y prif resymau am danwario £4.813m yw:

### **Gweithwyr - tanwariant o** £0.598m

Mae hon yn effaith net nifer o eitemau. Roedd tâl swyddogion heddlu dros y gyllideb o £0.631m, o ganlyniad i'r cynllun recriwtio i gyflawni'r targed Ymgyrch Uplift (menter y Llywodraeth i gynyddu niferoedd swyddogion heddlu 20,000 dros dair blynedd) yn gynnar, ac i gynnal niferoedd swyddogion drwy gydol y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, cafwyd cynnydd net o 82 o swyddogion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd tâl staff dros y gyllideb o £0.104m, o ganlyniad i gynnal lefelau staffio, a staff asiantaeth ychwanegol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gyda gwaith Covid. Bu tanwariant goramser o £0.145m, oherwydd y lefelau uchel a chyson o staff a swyddogion, absenoldeb oherwydd salwch is nag arfer, a moratoriwm 3 mis ar y rhan fwyaf o hyfforddiant.

Bu tanwariant o £0.738m, oherwydd y moratoriwm hwn a'r oedi wrth ddarparu hyfforddiant arall; felly mae'r tanwariant hwn wedi'i ddyrannu rhwng y Gronfa Hyfforddi wrth gefn a'r gronfa Fframwaith Cymwysiadau Addysgiadol yr Heddlu (PEQF) wrth gefn i sicrhau nad yw'r oedi hwn yn effeithio ar y dreth gyngor yn y dyfodol.

Roedd taliadau pensiwn uniongyrchol £0.309m yn is na'r disgwyl, oherwydd bod 3 yn llai o swyddogion wedi ymddeol ar sail afiechyd o gymharu â'r gyllideb.

### **Safleoedd – tanwariant o** £0.663m

Arweiniodd cyfuniad o ddim cynnydd ym mhris tanwydd, a llai o ddefnydd o'r adeiladau at danwariant o £0.140m mewn costau ynni. O'r tanwariant sy'n weddill, roedd £0.394m yn ymwneud â gwaith adeiladu a gafodd ei ohirio oherwydd y pandemig.

### **Trafnidiaeth – tanwariant o** £0.668m

Roedd y gost o ddefnyddio cerbydau'r heddlu £0.441m yn is na'r gyllideb. Mae'r rhan fwyaf o hyn o ganlyniad i gostau tanwydd is, ond mae tua £0.080m yn ganlyniad i gostau trwsio damweiniau is. Roedd lwfansau car a theithio o dan y gyllideb £0.227m o dan y gyllideb. Gellir priodoli hyn yn uniongyrchol i gyfyngiadau symud Covid, gan fod y rhan fwyaf o gyfarfodydd wedi'u cynnal ar-lein, sy'n golygu bod teithio yn ôl ac ymlaen i gyfarfodydd wedi lleihau'n sylweddol.

### **Cyflenwadau a Gwasanaethau - tanwariant o** £0.506m

Ymhlith y tanwariant sy'n gysylltiedig ag unigolion sy'n gweithio gartref ac yn mynychu cyfarfodydd ar-lein yn ystod y pandemig yn cynnwys defnyddiau swyddfa (deunydd ysgrifennu ac argraffu) £0.120m a chynhaliaeth £0.168m.

Neilltuwyd cyllideb ychwanegol i dalu am TG ar gyfer Swyddogion Ymgyrch Uplift; yn hytrach, bodlonwyd y gwariant hwn gan y Rhaglen Gyfalaf, gan arwain at danwariant o £0.210m o ran TG a Chyfathrebu.

Er bod y gwariant ar ddillad a lifrai yn ôl y disgwyl ar gyfer swyddogion ar brawf, roedd llai o alw gan swyddogion a staff presennol, gan arwain at danwariant o £0.169m.

Gorwariant o £0.100m o ran gwaith fforensig, yn bennaf oherwydd costau uwch ar gyfer profi cyffuriau ar ochr y ffordd.

**Yr oedd chwyddiant a'r gronfa wrth gefn cyffredinol o £0.250m heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn.**

**Derbyniwyd incwm ychwanegol, sy'n dod i** £2.231m**. Mae eitemau arwyddocaol yn cynnwys:**

- Incwm o secondiadau yn £0.464m yn uwch na'r gyllideb
- Roedd grantiau penodol £1.615m yn fwy na'r gyllideb
- Partneriaethau – rheolir y cyllidebau hyn ar wahân, ond fe'u cynhwysir yn yr alldro ar gyfer cyflawnrwydd, ac fe'u cynhwysir yn y Datganiad o Gyfrifon
- Roedd llog ar falansau £0.930m yn llai na'r gyllideb

Yn yr uchod mae incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â Covid. Mae hwn yn net o £0.293m yn ystod 2020/21 sy'n cynnwys:

| Gwariant sy'n gysylltiedig â Covid wedi'i gynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol: | £m |
|---|---|
| Costau Gweithwyr | 0.965 |
| Costau nad yw'n gysylltiedig â staff | 0.593 |
| Colli Incwm | 0.203 |
| Grantiau penodol | (1.468) |
| **Cyfanswm gwariant net** | **0.293** |

Mae cost Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd wedi'i chynnwys yn yr uchod. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn oedd £0.930m a'r alldro oedd £0.828m. Roedd tua hanner y tanwariant hwn yn ganlyniad i swydd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd fod yn wag am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, gyda'r gweddill yn deillio o nifer fawr o amrywiannau llai. Mae'r tanwariant hwn wedi'i ddyrannu i Gronfa wrth Gefn Swyddfa'r CHTh a'r Gronfa Gyfreithiol wrth gefn.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am wasanaethau comisiynu i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Yn ogystal â chyllideb Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd, gweinyddwyd £3.463m o wariant a ariennir yn allanol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn ariannol, gan ddod â chyfanswm y gwariant i £5.200m. Yn ogystal â'r gweithgareddau arferol, roedd hyn yn cynnwys £1.097m o gyllid yn gysylltiedig â Covid, a £0.993m o gronfa Strydoedd Diogelach.

Dangosir cysoniad rhwng yr alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu Grŵp, sy'n ymddangos ar dudalen 19 o'r Datganiad Cyfrifon.

Mae'r tabl gwariant refeniw yn cynnwys effaith gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ar y cyfrif incwm a gwariant a'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau sydd â bywyd defnyddiol o fwy na blwyddyn, megis tir, adeiladau, cerbydau a rhywfaint o offer TG. Pan werthir asedau, rhaid trosglwyddo derbyniadau o fwy na £10,000 i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn, a dim ond i ariannu'r rhaglen gyfalaf neu i ad-dalu dyledion y gellir eu defnyddio. (I'r gwrthwyneb, mae'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd o'r enw'r Gronfa Gyfalaf wrth gefn yn deillio o refeniw, a gall y Comisiynydd drosglwyddo symiau rhwng y gronfa gyffredinol ac unrhyw gronfa wrth gefn a glustnodwyd fel y gwêl yn dda; caiff y cronfeydd wrth gefn hyn eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu dyrannu'n briodol i gyflawni cynlluniau'r Comisiynydd.)

Y rhaglen gyfalaf gwreiddiol ar gyfer 2020/21 oedd £9.906m. Cynyddodd ychwanegu llithriant hyn i £12.677m. Yn bennaf oherwydd cyfyngiadau Covid cafodd y rhaglen ei ail-broffilio, gyda'r amcangyfrif diwygiedig yn chwarter 3 yn £6.087m. Yr alldro olaf oedd £5.258m.

| Cynllun | Cyllid 2020/21 (ail broffil) | Gwariant 2020/21 | Tanwariant/ llithriant |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Stadau | 1.889 | 1.669 | (0.220) |
| Cerbydau ac offer | 2.033 | 1.727 | (0.306) |
| TG a Chyfathrebiadau | 2.165 | 1.862 | (0.303) |
| **Cyfanswm y rhaglen gyfalaf** | **6.087** | **5.258** | **(0.829)** |

Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw cronfeydd wrth gefn. Nid oes hawl ganddo osod cyllideb a allai adael y cronfeydd wrth gefn a ellir eu defnyddio wedi eu gordynnu. Mae crynodeb o'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn isod, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y Datganiad Cyfrifon.

| Symudiadau yn y Cronfeydd wrth gefn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £m | Trosglwyddiadau allan 2020-2021 £m | Trosglwyddiadau yn 2020-2021 £m | Cyfanswm Symudiadau £m | Mantolen 31 Mawrth 2021 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa wrth gefn cyffredinol** | **5.189** | **-** | **0.228** | **0.228** | **5.417** |
| **Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd:** | | | | | |
| Cronfa Gyfalaf wrth Gefn | 3.002 | - | - | - | 3.002 |
| Cronfa wrth Gefn Pensiynau Afiechyd | 1.115 | (0.140) | - | (0.140) | 0.975 |
| Cronfa wrth Gefn PFI | 3.177 | (0.071) | - | (0.071) | 3.106 |
| Cronfa wrth Gefn Digwyddiadau Difrifol | 2.435 | - | - | - | 2.435 |
| Cronfa Yswiriant wrth Gefn | 1.173 | - | - | - | 1.173 |
| Cronfa wrth gefn diogelwch a chynnal a chadw Stad | 2.279 | (0.490) | 0.103 | (0.387) | 1.892 |
| Cronfa Balansau Partneriaethau wrth Gefn | 0.674 | (0.050) | 0.109 | 0.059 | 0.733 |
| Cronfa Rheoli Newid wrth Gefn | 5.290 | (0.259) | 1.945 | 1.686 | 6.976 |
| Cronfa hyfforddi wrth gefn | 0.100 | - | 0.500 | 0.500 | 0.600 |
| Cronfa wrth gefn Uplift | - | - | 1.577 | 1.577 | 1.577 |
| Cronfa wrth gefn ESN | - | - | 0.158 | 0.158 | 0.158 |
| Cronfa wrth gefn Covid | - | - | 0.597 | 0.597 | 0.597 |
| Cronfa wrth gefn PEQF | - | - | 0.325 | 0.325 | 0.325 |
| Cronfa wrth gefn FCIN | - | - | 1.080 | 1.080 | 1.080 |
| Cronfa diogelwch cymunedol wrth gefn y Comisiynydd | 0.510 | (0.089) | 0.087 | (0.002) | 0.508 |
| Cronfa gyfreithiol wrth gefn (SCHTh) | 0.056 | - | 0.054 | 0.054 | 0.110 |
| Cronfa wrth gefn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 0.163 | - | 0.050 | 0.050 | 0.213 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd** | **19.974** | **(1.099)** | **6.585** | **5.486** | **25.460** |
| **Cyfanswm Cronfeydd Refeniw wrth Gefn** | **25.163** | **(1.099)** | **6.813** | **5.714** | **30.877** |
| Cronfa wrth Gefn Derbynebau Cyfalaf | 0.054 | (0.088) | 2.118 | 2.030 | 2.084 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy** | **25.217** | **(1.187)** | **8.931** | **7.744** | **32.961** |

Mae'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (a welir uchod) yn cynrychioli mantolen cronfeydd y trethdalwyr oedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 31 Mawrth 2021. Mae'r daflen mantolen yn cynnwys cronfeydd wrth gefn annefynddadwy hefyd, sy'n cael eu creu oddi wrth y trafodion sydd angen er mwyn i'r datganiadau cyfrifo gydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cafodd pandemig Covid-19 effaith sylweddol yn ystod 2020/21, a oedd yn golygu bod angen gohirio rhai gweithgareddau (fel hyfforddiant). Mae'r gwariant gohiriedig hwn wedi'i roi mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i sicrhau y gellir ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd ganddo yn y dyfodol, ac ni fydd angen cynyddu'r dreth gyngor i dalu am yr eitemau hyn.

Wrth osod treth y cyngor ar gyfer 2021/22, tynnwyd sylw at y ffaith y bydd angen swm sylweddol o arian ar gyfer ESN (Rhwydwaith Gwasanaethau Brys – sydd wedi disodli system radio Airwave), a'r bwriad oedd sefydlu cronfa wrth gefn at y diben hwn ar ddiwedd 2021/22. Penderfynwyd dyrannu swm o'r tanwariant yn 2020/21 tuag at hyn, a fydd yn lleihau'r swm y mae angen i ni ei fenthyca at y diben hwn yn y dyfodol.

Er bod llawer o amrywiadau sylweddol o ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2020/21, rheolwyd cyllid yn dda yn ystod y flwyddyn, gydag oedi wrth gefn yn cael ei roi mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r pandemig yn effeithio ar gyllidebau'r blynyddoedd i ddod. Erbyn hyn, mae cronfeydd refeniw wrth gef n yn 18% o'r gyllideb net flynyddol (16% ar 31 Mawrth 2020) – sy'n cyfateb i ychydig dros ddau fis o wariant. Gyda'r angen i ariannu ESN, ac i wella o bandemig Covid-19, ac ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid yn y dyfodol, bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn allweddol i'n gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.